


# Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru
# Mai 2026

Y mis hwn, rydym yn falch o rannu amrywiaeth o ddiweddariadau sy’n tynnu sylw at barhad y gwaith cyflawni a’r cyfleoedd ar draws Tyfu Canolbarth Cymru. O cyllid ychwanegol y Fargen Twf i brosiect Llynnoedd Cwm Elan, i'r lansiad cyllid grant newydd LoRaWAN—sy’n helpu busnesau i gael hyd at £4,999 ochr yn ochr â chymorth arbenigol i fabwysiadu technolegau clyfar—i straeon ysbrydoledig fel taith prentisiaeth Leah ym maes rheoli adeiladu, mae’r rhifyn hwn yn adlewyrchu’r cymorth ymarferol sydd ar gael a’r bobl sy’n sbarduno newid ar draws y rhanbarth.

Rydym hefyd yn gwahodd busnesau i chwarae rôl uniongyrchol wrth lunio gweithlu’r dyfodol drwy arolwg y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol—mae eich mewnbwn yn hanfodol i’n helpu i ddeall anghenion sgiliau ar draws Canolbarth Cymru. Ar yr un pryd, mae cyffro’n cynyddu wrth i’r paratoadau ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru gyflymu, lle byddwn yn arddangos ehangder y gweithgarwch a’r effaith sy’n cael eu cyflawni drwy ein rhaglenni.

Wrth edrych ymlaen at fis Mehefin, byddwn yn rhannu rhagor o ddiweddariadau o’r Rhaglen Ddigidol—gan ddod â band eang gallu gigabit i barciau busnes ar draws Ceredigion a Phowys. Yn ogystal, bydd cyfresi newydd o benodau podlediad *Unlocking Mid Wales* ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a byddwn hefyd yn clywed gan fusnesau sydd wedi elwa’n ddiweddar o Gronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru.

[Tîm Tyfu Canolbarth Cymru]

Clawr: Canolfan ymwelwyr Cwm Elan

## Cymeradwyo cyllid pellach i gyflawni Prosiect Llynnoedd Cwm Elan

Mae cyllid pellach ar gyfer Prosiect Llynnoedd Cwm Elan wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru (19 Mai). Mae'r penderfyniad yn nodi cam pwysig ymlaen, gan alluogi cam nesaf y prosiect i ddechrau.

Ym mis Mawrth 2025, derbyniodd y prosiect £565,500 o gyllid Bargen Twf i gefnogi gweithgarwch cyflawni cynnar. Mae hyn wedi galluogi gwaith cychwynnol i ddechrau ar elfennau allweddol, gan gynnwys cynlluniau i ehangu'r goedwig law Geltaidd a dyluniad canolfan ymwelwyr newydd, gan nodi'r pontio o'r cam cynllunio i'r cam gweithredu.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd, bydd Dŵr Cymru yn derbyn £3.81 miliwn ychwanegol i symud ymlaen â chyflawni'r prosiect llawn, gan ddod â chyfanswm cefnogaeth Bargen Twf ar gyfer yr elfen hon i £4.37 miliwn. Mae'r buddsoddiad hwn yn rhan o becyn ehangach i gyflawni'r cynllun yn llawn, ac yn cael ei ategu gan fuddsoddiad o 50% gan Dŵr Cymru, gan adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i gyflawni'r prosiect.

Darllenwch mwy ar [ein wefan.]



*1 - Coed Penbont, Cwm Elan*

## Cyllid a chymorth busnes er mwyn helpu busnesau yng Nghanolbarth Cymru i fabwysiadu technoleg LoRaWAN glyfar

Estynnir gwahoddiad i fusnesau ar draws Canolbarth Cymru i fanteisio ar gyllid newydd a chymorth arbenigol er mwyn eu helpu i fabwysiadu technolegau arloesol LoRaWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Pellter Hir) er mwyn rhoi hwb i gynhyrchiant, fel rhan o brosiect LoRaWAN Tyfu Canolbarth Cymru.

Gall busnesau cymwys yng Ngheredigion a Phowys wneud cais am grantiau o hyd at £4,999 er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o brynu a gosod dyfeisiau, synwyryddion a phyrth wedi'u galluogi gan LoRaWAN. Cynlluniwyd y cyllid er mwyn helpu busnesau i integreiddio technolegau digidol clyfar, nad ydynt yn defnyddio llawer o bŵer, yn eu gweithrediadau dydd i ddydd, gan wella effeithlonrwydd, lleihau costau a chynorthwyo penderfyniadau gwell.

Cefnogir busnesau trwy gydol y cyfnod gan Antur Cymru, sy'n darparu'r prosiect ar ran Tyfu Canolbarth Cymru, gan ddarparu canllawiau ymarferol o'r cychwyn cyntaf.

Anogir busnesau sydd â diddordeb mewn ymgeisio i Fynegi Diddordeb trwy wefan Tyfu Canolbarth Cymru: www.tyfucanolbarth.cymru/LoRaWAN

Darllenwch y stori llawn ar ein wefan.

Cadwch lygad allan am ein podlediad nesaf *Unlocking Mid Wale*s gyda Business News Wales, lle bydd Jan o The Snail of Happiness yn rhannu sut mae ei busnes wedi elwa o ddefnyddio technoleg LoRaWAN i wneud penderfyniadau callach sy’n cael eu llywio gan ddata.




*2 - Aelodau Antur Cymru sy’n darparu’r prosiect ar ran Tyfu Canolbarth Cymru (Ch-Dd) Lynne Rees, Alex Matthews, Emma Jehu*

## Sbotolau ar fenywod ym maes adeiladu: taith prentisiaeth mewn rheoli adeiladu

Fel rhan o ymdrechion parhaus i dynnu sylw at lwybrau sgiliau a chyfleoedd gyrfa ledled Canolbarth Cymru, dyma rannu profiad Leah Bell, Swyddog Rheoli Adeiladu dan Hyfforddiant gyda Chyngor Sir Ceredigion.

Mae cefnogi menywod ar draws pob sector a hyrwyddo prentisiaethau fel llwybrau gyrfa gwerthfawr yn parhau'n ganolog i adeiladu gweithlu cryf a chynhwysol ar gyfer y dyfodol.

Mae stori Leah yn adlewyrchu'r ddwy flaenoriaeth hon. Wrth iddi symud ymlaen drwy ei phrentisiaeth a gweithio tuag at ddod yn Arolygydd Adeiladu Cofrestredig (RBI) benywaidd cyntaf yng Ngheredigion, mae ei phrofiad yn dangos sut y gall prentisiaethau agor drysau i

yrfaoedd technegol a boddhaol iawn — gan gynnwys mewn sectorau sydd yn draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol o fenywod.

*"Fel hyfforddai, nid oes dau ddiwrnod yr un fath. Gallaf fod yn adolygu cynlluniau pensaernïol un funud ac yna allan ar safle gyda Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig profiadol y funud nesaf, yn cynnal archwiliadau, yn mynychu cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol, yn cwblhau gwaith papur technegol, neu'n mynd i'r afael â'r her wythnosol o gofio rheoliad neu ddogfen gymeradwy arall. Erbyn diwedd fy mhrentisiaeth, byddaf wedi cwblhau pedwar arholiad proffesiynol, wedi cymhwyso fel gweithiwr proffesiynol ym maes Rheoli Adeiladu, ac wedi cofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau fel Arolygydd Adeiladu Cofrestredig — gan ddod yn RBI benywaidd cyntaf yng Ngheredigion. Carreg filltir bersonol fach, ond un rwy'n gobeithio fydd yn gam tuag at annog mwy o fenywod i ymuno â'n sector adeiladu lleol."*

Darllenwch mwy am Leah ar ein wefan.




*3 - Leah Bell*


## Diweddariad Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Canolbarth Cymru

Mae Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Canolbarth Cymru (PSRh) wedi bod yn gweithio'n agos gydag One Step North i gefnogi datblygiad platfform Gyrfaoedd mewn 360. Mae llyfrgell gynyddol o ffilmiau trochi sy'n arddangos ystod eang o yrfaoedd bellach ar gael, gan gynnwys cipolwg ar rolau fel milfeddyg fferm a thechnegydd tyrbin gwynt. Mae gwaith hefyd ar y gweill gyda datblygwyr y platfform i sicrhau bod y ffilmiau hyn ar gael ar wahân i'w defnyddio gan addysgwyr.

Mae ffair yrfaoedd rithwir Byd Gwaith (ExpoVerse) y platfform yn ategu cyfeiriadur busnes pwrpasol, gan alluogi cyflogwyr Canolbarth Cymru i arddangos cyfleoedd a llwybrau gyrfa i

ddysgwyr. Byddwn yn parhau i ehangu nifer y busnesau o Ganolbarth Cymru sy’n cael eu cynnwys ar y platfform.

Archwiliwch y platfform yma: Gyrfaoedd mewn 360





## Helpwch i lunio datblygiad sgiliau yn y dyfodol a darpariaeth alwedigaethol ôl-16 ar draws Canolbarth Cymru

Rydym yn gwahodd **cyflogwyr Powys** i gwblhau **Arolwg Busnes Sgiliau Rhanbarthol** i helpu siapio datblygiad sgiliau a darpariaeth ôl-16 ledled Powys a Chanolbarth Cymru. Bydd eich adborth yn ein helpu i ddeall anghenion y gweithlu, heriau recriwtio a'r galw am sgiliau yn y dyfodol.

Mae'r arolwg yn cynnwys adran fer ar weithgynhyrchu uwch a darpariaeth hyfforddiant yn y dyfodol ym Mhowys. Bydd eich adborth yn helpu i lywio'r camau nesaf.

Bydd y canlyniadau'n cefnogi datblygu cynllun darpariaeth ôl-16 cydweithredol sy'n diwallu anghenion sgiliau rhanbarthol ac yn cefnogi twf economaidd.

Bydd yr holl ddata'n cael ei gadw'n ddiogel gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, ac mae cyfranogiad yn wirfoddol.

Cwblhewch yr arolwg erbyn **29 Mai 2026** gan ddefnyddio dolen canlynol: Arolwg Busnes Sgiliau Rhanbarthol - CYMRAEG




Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Canolbarth Cymru
Mid Wales
Regional Skills Partnership

## Cysylltu arloesedd a busnes yng Nghanolbarth Cymru

Braf oedd bod yn rhan o'r digwyddiad Cyfnewidfa Arloesi Busnes Canolbarth Cymru Prifysgol Aberystwyth a chysylltu â chymaint o fusnesau ledled y rhanbarth Roedd ein timau o'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, Bargen Twf Canolbarth Cymru ac Ynni wrth law ar y stondin—yn rhannu mewnwelediadau, meithrin cysylltiadau ac yn tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i helpu sefydliadau arloesi, tyfu ac addasu mewn amgylchedd busnes sy'n newid.

Roedd yn gyfle gwerthfawr i gael sgyrsiau go iawn gyda busnesau am eu blaenoriaethau, eu heriau a'u huchelgeisiau—a sut y gallwn barhau i'w cefnogi wrth symud ymlaen.

Diolch i bawb a ddaeth draw i siarad gyda ni.




*4 - (Ch-Dd) Louise Grove-White, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, Teresa Peel-Jones, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, Catrin Sneade, Arweinydd Ynni Rhanbarthol Tyfu Canolbarth Cymru, Stacey-Jayne Oakham ag Amy Waters, Tîm Tyfu Canolbarth Cymru*

## Rhoi Canolbarth Cymru ar y map yn UKREiiF 2026

Roeddem yn falch o fod yn rhan o'r drafodaeth yn UKREiiF2026 ar ddatgloi twf gwyrdd ar raddfa ledled Cymru. Drwy Bafiliwn Cymru Gyfan, bu partneriaid yn arddangos sut mae alinio ynni, datblygu economaidd a chynllunio yn helpu i greu cynnig cryf a deniadol ar gyfer buddsoddi yng Nghymru.

Fel rhan o bresenoldeb cydgysylltiedig "Tîm Cymru", gweithiodd partneriaid gyda'i gilydd i ymgysylltu â buddsoddwyr, creu cyfleoedd newydd ac amlygu Canolbarth Cymru fel rhan allweddol o'r cynnig cenedlaethol—gan gefnogi buddsoddiad, swyddi a datgarboneiddio ledled y rhanbarth.

Mae rhagor o wybodaeth am Bafiliwn Cymru ar gael drwy [wefan Trade and Investment Wales]



## Cadwch lygad allan – Tyfu Canolbarth Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru

Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru eleni ym mis Gorffennaf, lle bydd Tyfu Canolbarth Cymru yn cynnal cyfres o sesiynau. Drwy gydol yr wythnos, byddwn yn dod â phartneriaid, busnesau a rhanddeiliaid ynghyd i ganolbwyntio ar feysydd allweddol gan gynnwys cysylltedd digidol, ynni adnewyddadwy, sgiliau a chefnogi busnesau lleol i dyfu.

Mae'n argoeli i fod yn rhaglen gref a fydd yn arddangos yr ystod eang o waith sy'n digwydd ledled y rhanbarth, yn ogystal â'r cydweithio sydd y tu ôl iddo. Byddwn yn rhannu mwy o fanylion yn rhifyn y mis nesaf wrth i'r cynlluniau ddatblygu—ochr yn ochr â rhagolwg o'r hyn i'w ddisgwyl yn ystod yr wythnos.




## Newyddion wrth ein partneriaid

### Hwb i drafnidiaeth gyhoeddus ym Mhowys

Mae Cyngor Sir Powys wedi croesawu'r cyntaf o 15 bws newydd eu hadnewyddu, gan nodi cam pwysig ymlaen wrth wella trafnidiaeth gyhoeddus ledled y sir. Wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru drwy gydweithrediad P*ontio i Fasnachfreinio*, bydd y bysiau wedi'u huwchraddio yn cynnig teithiau mwy hygyrch, cyfforddus ac allyriadau is, gyda nodweddion gan gynnwys gwell seddi, cyhoeddiadau sain-gweledol a gwefru USB.

Nod y rhaglen ehangach yw darparu rhwydwaith mwy integredig sy'n canolbwyntio ar deithwyr ledled Canolbarth Cymru, gyda rhagor o gerbydau i'w cyflwyno fesul cam dros y misoedd nesaf.

Darllenwch fwy ar [wefan Cyngor Sir Powys.]





## Arolwg Busnes Cymru Wledig 2025

Mae eich llais yn bwysig. Mae'r Bartneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol yn gweithio i ddeall anghenion busnesau yng nghefn gwlad Cymru—ac mae angen eich help arnynt i lunio'r camau nesaf.

Mae angen mwy o fusnesau yng nghefn gwlad Cymru i gwblhau Arolwg Busnes Gwledig LPIP. Mae'r arolwg wedi'i ddatblygu gan brifysgolion Cymru a sefydliadau cymorth busnes er mwyn deall anghenion busnesau yng nghefn gwlad Cymru — ac mae angen eich help arnom.

Mae Cymru Wledig LPIP yn bartneriaeth o ymchwilwyr, llunwyr polisi, cymunedau a sefydliadau sy'n cefnogi datblygiad cynhwysol a chynaliadwy ar gyfer cefn gwlad Cymru. Caiff ei hariannu gan UK Research and Innovation (UKRI).

Cymerwch ran yn yr arolwg yma.



## Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Cofiwch, gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol yma:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau YouTube, LinkedIn ac Instagram:

www.instagram.com/growingmidwales/

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i gyrraedd gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales